

Annwyl gyfeillion,

Mae hi'n flwyddyn gyffrous yn 2022 gydag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Ddinbych ym mis Mai - Eisteddfod agos iawn atom yng Nghonwy gyda mynediad **am ddim** i bawb.

Rydym yn cydweithio gydag Awdurdod Addysg Conwy i sicrhau bod ein heisteddfodau cylch a sir yn digwydd mewn ffordd ddiogel ac rydym ar hyn o bryd yn asesu risg ein lleoliadau a'n gweithgareddau.

Mae llawer ohonoch wedi bod yn holi pryd fydd Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth, ac felly dyma gyhoeddi'r dyddiadau:

Eisteddfod Cylch Bro Aled – 05/03/2022, Ysgol Bro Aled, Llansannan

Eisteddfod Cylch Bro Dulas – 05/03/2022, lleoliad i'w gadarnhau

Eisteddfod Cylch Bro Conwy – Dyddiad i'w gadarnhau, Ysgol Tudno, Llandudno

Eisteddfod Cylch Uwchaled – 12/03/2022, Canolfan Addysg Uwchaled, Cerrigydrudion

Eisteddfod Cylch Uwch Conwy – 12/03/2022, Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst

Eisteddfod Ddawns Rhanbarth Conwy – 16/03/2022, Ysgol John Bright, Llandudno

Eisteddfod Uwchradd Rhanbarth Conwy – 19/03/2022, Ysgol Y Creuddyn, Bae Penrhyn

Eisteddfod Cynradd Rhanbarth Conwy – 26/03/2022, Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst

Y dyddiad cau cofrestru i gystadlu yw **Dydd Llun, 14eg Chwefror**.

Bydd yr Eisteddfodau Cylch yn digwydd yn ddibynnol ar niferoedd y cystadleuwyr a gall nifer o gystadlaethau eleni fynd yn syth i'r Rhanbarth (h.y. os oes 6 neu lai mewn cystadlaeth). Byddwn yn eich diweddarau ar hyn yn fuan ar ôl i ni dderbyn y niferoedd cystadlu wedi y 14eg o Chwefror.

Ni fydd unrhyw gystadlaethau torfol yn digwydd yn yr Eisteddfodau Cylch. Yn ddibynnol ar niferoedd y corau, partïon, caneuon actol ayyb, byddwn yn penderfynu os y byddant yn mynd yn syth i'r Eisteddfod Sir neu'n trefnu bod beirniad yn dod i'w hymweld yn yr ysgolion.

Noder: Gall yr Urdd newid y trefniadau yn dibynnu ar gyfyngiadau Covid-19 ar y pryd. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i osgoi cymysgu ag eraill. Byddwn yn cydweithio gydag Awdurdod Conwy ymhob penderfyniad.

Celf a Chrefft

Thema: Môr a Mynydd

Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru yw **Dydd Mawrth y Sed o Ebrill 2022**.

Yn wahanol i'r arfer, bydd yr holl broses o feirniadu gwaith CDT ar lefel rhanbarthol yn digwydd yn rhithiol. Bydd disgwyl i bob cystadleuydd gofrestru i gystadlu ar-lein gan ddefnyddio eu cyfrif Porth personol (os yn cofrestru gwaith eu hunain) neu drwy gyfrif Porth y gangen (os oes ysgrifennydd cangen yn cofrestru'r gwaith ar ran y cystadleuydd).

Cyfansoddi a Chreu a Prif Gystadlaethau

Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru yw **Dydd Mawrth y 1af o Fawrth 2022**.



Cogurdd- Cystadleuaeth Coginio'r Urdd

Mae ryseitiai Cogurdd i'w gweld ar wefan yr Urdd: <https://www.urdd.cymru/en/youth-and-community/primary/criw/criw-cynradd/ryseitiai-cogurdd/>

Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru yw **Dydd Llun y 14eg o Chwefror**.

Cystadlaethau Llwyfan 19- 25

Mae holl gystadlaethau llwyfan o dan 25 oed sy'n cael eu cynnal yn arferol ar ddydd Sadwrn olaf yr Eisteddfod yn mynd yn syth i'r Genedlaethol yn Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022.

Dyma gadarnhau na fydd rhaid i gystadleuwyr unigol a chystadlaethau torfol o dan 25 oed ymddangos yn yr Eisteddfod Gylch na Rhanbarth. Bydd pob unigolyn, deuawd, ensemble grŵp, parti a chôr yn derbyn gwahoddiad i gystadlu a pherfformio am y tro cyntaf ar faes yr Eisteddfod ar ddydd Sadwrn 4ydd Mehefin 2022.

Ewch i dudalen 75 yn y Rhestr Testunau i weld rhestr o'r holl gystadlaethau sydd yn mynd i'r Genedlaethol.

Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru yw **Dydd Mawrth y 1af o Fawrth**.

Am fwy o wybodaeth am Eisteddfod yr Urdd 2022 ewch i'r wefan:

<https://www.urdd.cymru/cy/eisteddfod/>

Aelodaeth

Rhaid bod yn aelod o'r Urdd i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2022. Mae Aelodaeth yr Urdd yn cynnwys mynediad i gystadlaethau Chwaraeon, Adrannau ac Aelwydydd, Gwersylloedd, gweithgareddau gwyliau ysgol a llawer mwy. Pris Aelodaeth 2022:

Aelodaeth unigol £10.

*****£1 yn unig i rheiny sy'n derbyn cefnogaeth drwy brydau ysgol am ddim.**

Fel yr ydych eisoes yn ymwybodol, mae gan yr Urdd system newydd **Y Porth** i gofrestru aelodaeth. Ond wyddoch chi mai dyma'r system y byddwch chi hefyd yn ei defnyddio i gofrestru i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd o hyn ymlaen?

Mae'n holl bwysig i bob cangen/ysgol a rhieni/gwarcheidwad greu cyfrif yn Y Porth, bydd hyn yn eich caniatáu i reoli digwyddiadau'r Urdd yn y dyfodol. Os nad ydych eto wedi greu cyfrif, peidiwch ag oedi!

Os am unrhyw gymorth wrth greu cyfrif Y Porth, cysylltwch gyda aelodaeth@urdd.org



100
1922 - 2022

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu angen cymorth, mae croeso i chi gysylltu ag Elin Mair Jones, Swyddog Celfyddydau a Gwersylloedd Rhanbarth Conwy ar elinmair@urdd.org neu 07976003322.

Mae'r Urdd yn gwerthfawrogi cefnogaeth a chydweithrediad Awdurdod Conwy wrth geisio sicrhau llwyddiant yr Eisteddfod.